

LLAWLYFR 2019
F2

CYMRU FYD-EANG DARGANFOD

Cymru Fyd-eang Darganfod Llawlyfr f2

Crynodeb o'r newidiadau ers y fersiwn cyhoeddedig diwethaf (f1):

Adran 5: Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig

Yn yr ail baragraff, mae "...dim hwyrach nag 14 Chwefror yn y cylch ariannu." wedi'i newid i "...dim hwyrach nag 14 Chwefror 2020."

Adran 18: Archwiliadau a monitro a gwerthuso

Mae'r frawddeg "Bydd gwybodaeth am amseru a chwmpas y gweithgarwch hwn yn cael ei chyhoeddi yn nes ymlaen." wedi'i dileu, ac yn ei lle rhoddwyd cynnwys presennol yr adran.

(Mae mân newidiadau fformatio wedi'u gwneud hefyd ond heb eu nodi yma)

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
1. Cymhwysedd.....	4
2. Gweithgarwch cymwys.....	4
3. Cyfnod gweithgarwch.....	5
4. Grantiau i fyfyrwyr.....	5
5. Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig.....	6
6. Dychwelwyr cynnar.....	7
7. Ceisiadau.....	7
8. Dethol myfyrwyr.....	8
9. Dyrannu'r cyllid.....	8
10. Adroddiadau gan Brifysgolion.....	9
11. Cytundebau gyda myfyrwyr.....	10
12. Diogelwch cyfranogwyr.....	10
13. Adroddiadau gan fyfyrwyr.....	10
14. Cadw cofnodion.....	10
15. Taliadau ac adenillion.....	11
16. Taliadau i fyfyrwyr.....	11
17. Cytundebau grant.....	11
18. Archwiliadau a monitro a gwerthuso.....	12
19. Apelio.....	12
Atodiad 1: Tystysgrif Presenoldeb.....	14
Atodiad 2: Ffurflen Apelio.....	16
Atodiad 3: Ffurflen Cymorth Ychwanegol.....	20
Atodiad 4: Ffurflen Adnabod Ariannol.....	26
Atodiad 5: Cytundeb Grant Profiad Ymweld.....	29

Cysylltwch â ni

British Council Cymru, 1 Kingsway, Caerdydd CF10 3AQ

GlobalWalesDiscover@BritishCouncil.org

Cyflwyniad

Mae rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod yn cynnig cyllid i fyfyrwyr israddedig o Gymru sydd mewn prifysgol yng Nghymru i gael cyfleoedd i astudio, gweithio neu wirfoddoli am gyfnod byr mewn ystod o wledydd targed ledled y byd (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'profiad ymweld').

Mae hyd y profiadau ymweld a'r cyfraddau grant wedi'u gosod ar lefelau y gobeithir y byddant yn annog myfyrwyr i gymryd rhan, yn enwedig myfyrwyr na fyddai'r profiadau ymweld hyn yn bosib heb gymorth o'r fath.

1. Cymhwysedd

Croesewir ceisiadau am gyllid gan unrhyw brifysgol yng Nghymru:

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol y Drindod Dewi Sant

Ni fydd ceisiadau gan Brifysgolion y tu allan i Gymru, na gan sefydliadau eraill nac unigolion yng Nghymru, yn cael eu hystyried.

Er mwyn bod yn gymwys am y cyllid, mae'n rhaid i israddedigion:

- fod yn wladolyn y Deyrnas Unedig neu fod ganddynt 'statws preswylydd sefydlog'
- fod wedi bod yn byw yng Nghymru am dair blynedd neu fwy cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eu cwrs cyfredol
- fod wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig am dair blynedd cyn dechrau'r cwrs.

Ni fydd myfyrwyr yn gallu cael cyllid ar gyfer mwy nag un profiad ymweld ym mhob cylch ariannu.

2. Gweithgarwch cymwys

Mae cyllid ar gael i fyfyrwyr gyflawni profiadau ymweld a nodwyd gan y Brifysgol, ei hasiantau, ei phartneriaid neu ei myfyrwyr i astudio, gweithio neu wirfoddoli yn rhyngwladol am gyfnod byr, lle mae'r brifysgol honno wedi cymeradwyo a sicrhau ansawdd y profiad ymweld, ynghyd â chytuno ar raglen weithgarwch ffurfiol. Dylech gysylltu â'r British Council mewn da bryd cyn i brofiad ymweld ddechrau er mwyn trafod unrhyw bryderon o ran cymhwysedd.

Gall profiad ymweld fod rhwng 2 ac 8 wythnos (14 diwrnod i 56 diwrnod), yn cynnwys amser teithio rhwng y gyrchwlad a Chymru. Bydd wythnosau rhannol yn cael eu talu ar sail oddeutu seithfed y gyfradd wythnosol berthnasol y diwrnod (gweled Tabl 2). Ni fydd unrhyw amser a dreulir yn y gyrchwlad y tu allan i'r rhaglen weithgarwch y cytunwyd arni yn cael ei gyllido.

Rhaid i'r profiad ymweld ddigwydd i ffwrdd o brifysgol gartref y myfyriwr (gan gynnwys unrhyw gampws tramor sydd gan y brifysgol), ac yn un o'r gwledydd a restrir yn Nhabl 2 (gweler "Grantiau i Fyfyryr").

3. Cyfnod gweithgarwch

Er mwyn i brofiadau ymweld fod yn gymwys i gael eu hariannu yn y cylch ariannu cyntaf hwn, rhaid i'r rhan fwyaf o brofiad ymweld unigolyn (hynny yw mwy na 50% o gyfanswm dyddiau'r profiad ymweld) ddigwydd rhwng y cyfnod 1 Mehefin 2019 a 31 Gorffennaf 2020. Mae Tabl 1 isod yn nodi enghreifftiau o sut caiff hyd y profiad ymweld ei fesur, a rhai profiadau ymweld fyddai'n gymwys neu na fyddent yn gymwys i gael eu hariannu yn ystod y cylch ariannu cyntaf.

Tabl 1: cymhwyster a hyd profiadau ymweld enghreifftiol

DECHRAU'R PROFIAD YMWELD	DIWEDD Y PROFIAD YMWELD	CYFANSWM HYD	STATWS	SYLWADAU
13 Mai 2019	9 Mehefin 2019	4 wythnos	Anghymwys	Mae'r rhan fwyaf – 2 wythnos 5 diwrnod – o'r profiad ymweld yn digwydd y tu allan i'r cyfnod gweithgarwch
13 Mai 2019	23 Mehefin 2019	6 wythnos	Cymwys	Mae'r rhan fwyaf – 3 wythnos 2 ddiwrnod – o'r profiad ymweld yn digwydd y tu mewn i'r cyfnod gweithgarwch
20 Gorffennaf 2020	30 Awst 2020	6 wythnos	Anghymwys	Mae'r rhan fwyaf – 4 wythnos 2 diwrnod – o'r profiad ymweld yn digwydd y tu allan i'r cyfnod gweithgarwch

Bydd yr ail gylch ariannu rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021, ac mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bob profiad ymweld unigol ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bod yn gymwys i gael ei ariannu. Gwneir galwad am geisiadau ar gyfer yr ail gylch ariannu ddechrau gwanwyn 2020.

4. Grantiau i fyfyrwyr

Bydd ariannu ar gyfer profiadau ymweld cymwys yn digwydd ar ffurf grant i gefnogi **Costau Byw**, a gyfrifir ar sail wythnosol, a grant i gefnogi **Costau Teithio**.

Cyfraniad tuag at y costau a gronnir gan fyfyrwyr sy'n paratoi ac yn cyflawni eu profiadau ymweld yw'r grant, a gellir ei ddefnyddio i dalu am unrhyw gost resymol a gronnir. Er enghraifft: visa, ffioedd pigiadau, ffioedd cofrestru, ffioedd rhaglen, cludiant i'r maes awyr ym Mhrydain ac oddi yno, costau llety, prydau bwyd, cludiant yn y gyrchwlad. Ni fydd y British Council yn disgwyl i fyfyrwyr ddarparu derbynebau fel tystiolaeth o'r costau a gronnir.

Bydd Costau Byw a ddangosir yn Nhabl 2 yn cael eu talu yn dibynnu ar gyrchwlad y profiad ymweld:

Tabl 2: Costau Byw

BAND	GWLEDYDD	CYFRADD WYTHNOSOL (£)	CYFRADD DDYDDIOL (£)
1	Denmarc, y Ffindir, Iwerddon, Lwcsembwrg, Sweden, Canada, Qatar, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Unol Daleithiau America, Japan	210	30
2	Awstria, Gwlad Belg, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Groeg, Sbaen, Cyprus, yr Iseldiroedd, Malta, Portiwgal	195	27
3	Bwlgaria, Croatia, Gweriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Rwmania, Slofacia, Slofenia,	185	26
4	India, Tsieina, Fietnam	175	25

Bydd cyfnod y profiad ymweld sy'n gymwys am gyllid Costau Byw yn cynnwys: diwrnod ar gyfer y daith o Brydain, diwrnod ar gyfer y daith yn ôl i Brydain, a holl gyfnod y rhaglen weithgarwch y cytunwyd arni.

Bydd Costau Teithio a ddangosir yn Nhabl 3 yn cael eu talu'n dibynnu ar gyrchwlad y profiad ymweld:

Tabl 3: Costau Teithio

GRŴP	GWLEDYDD	CYFRADD (£)
A	Awstria, Gwlad Belg, Croatia, Gweriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Lithwania, Lwcsembwrg, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden, Bwlgaria, Cyprus, Groeg, Malta, Rwmania,	300
B	Canada, Tsieina, India, Japan, Qatar, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Unol Daleithiau America, Fietnam	1200

Ar ddiwedd eu profiad ymweld, bydd pob myfyriwr yn cyflwyno Tystysgrif Presenoldeb (Atodiad 1) i'w prifysgol gartref, wedi'i llofnodi yn y wlad gan gynrychiolydd y sefydliad gwesteia yn ystod y profiad ymweld i ddangos bod y profiad ymweld wedi'i gwblhau.

Drwy adrodd bod y profiad ymweld yn gymwys i'r British Council yn yr Adroddiad Terfynol, mae'r Brifysgol yn cadarnhau bod y Dystysgrif Presenoldeb wedi'i chwblhau'n gywir, a bod y profiad ymweld wedi'i gwblhau.

Ni fydd profiadau ymweld i fwy nag un wlad yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen hon y tu hwnt i'r lefel hon.

5. Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig

Mae grantiau cymorth ychwanegol ar gael i fyfyrwyr y byddai eu hanghenion arbennig yn arwain at gronni costau ychwanegol a fyddai, heb gymorth ychwanegol, yn golygu bod eu cyfranogiad yn y rhaglen yn amhosib.

Mae'n rhaid gwneud ceisiadau am y grantiau hyn drwy'r Brifysgol gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 3, a'u cyflwyno i'r British Council **8 wythnos** cyn bod y profiad ymweld yn dechrau, a dim hwyrach nag

14 Chwefror 2020. Os nad yw'n bosib bodloni'r dyddiadau cyflwyno am unrhyw reswm, cysylltwch â'r British Council cyn gynted â phosib. Ni allwn warantu y bydd pob cais yn cael ei ariannu, ond byddwn yn ceisio ariannu cymaint â phosib, a byddwn yn defnyddio'n profiad o lefel y galw i lywio'r ariannu yn yr alwad nesaf.

Bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am gymorth ychwanegol ddarparu manylion am eu costau disgwylid, a fydd yn amodol ar broses gymeradwyo'r British Council. Bydd angen i fuddiolwyr gyflwyno adroddiad ariannol yn manylu ar y costau gwirioneddol gyda derbynebaw o fewn **30 diwrnod** i offen y profiad ymweld. Os na chaiff yr adroddiad ei gyflwyno ar amser, bydd unrhyw Gymorth Ychwanegol a delir yn cael ei ystyried fel cyllid anghymwys.

Rhaid i'r brifysgol wneud ceisiadau am gymorth ychwanegol i'r British Council ar ran y myfyriwr.

Bydd adroddiadau Interim a Therfynol (gweler adran 10 'Adroddiadau gan Brifysgolion') yn cynnwys adran i gofnodi/nodi pob myfyriwr cyfrannog sydd ag anghenion arbennig, p'un a ydynt wedi gwneud cais am gymorth ychwanegol ai peidio.

6. Dychwelwyr cynnar

Os bydd myfyriwr yn dychwelyd adref heb gyflawni lleiafswm y gofynion o ran hyd eu profiad ymweld, er enghraifft oherwydd salwch difrifol neu sefyllfa eithriadol arall, mae'n bosib y bydd y British Council yn cytuno bod y myfyriwr yn cadw'r cyllid ar gyfer cyfnod y profiad ymweld.

Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r brifysgol hysbysu'r British Council yn ysgrifenedig yn syth ar ôl i'r myfyriwr ddychwelyd. Yna, bydd y British Council yn rhoi gwybod i'r brifysgol pa dystiolaeth y mae angen iddynt ei chyflwyno (e.e. llythyr gan y meddyg am salwch) er mwyn ystyried y cais. Bydd pob penderfyniad ynghylch dychwelwyr cynnar yn cael ei wneud ar sail yr achos unigol.

7. Ceisiadau

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Galwad 2019 yw **17:00 dydd Mawrth 30 Ebrill 2019**.

Yn y ffurflen gais, bydd gofyn i chi gynnwys nifer y myfyrwyr sy'n gwneud profiadau ymweld ym mhob Grŵp Teithio, cyfanswm wythnosau'r profiad ymweld i bob Grŵp Teithio, a chyfanswm y grant y gwneir cais amdani. Er enghraifft:

NIFER Y PROFIADAU YMWELD	GRŴP TEITHIO	CYFANSWM HYD (WYTHNOSAU)
25	A	150
15	B	60

Ni fydd gofyn i chi fanylu ar y gyrchwlad benodol ar y cam ymgeisio.

Prosiect peilot yw hwn, ac fe'ch anogwn i gyflwyno ceisiadau sy'n seiliedig ar ddisgwyliadau realistig o sut byddwch yn defnyddio'r arian. Os bydd gormod o geisiadau, mae'n bosib y bydd y British Council yn cymedroli'r ceisiadau ar y cam dyrannu cychwynnol. Fodd bynnag, bydd cyfle i adrodd ar gynnydd mewn gweithgarwch yn hwyrach yn y cylch (gweler adran 10 'Adroddiadau gan y Brifysgol'). Byddwn yn ceisio

cefnogi cymaint o weithgarwch a adroddir yn y ffordd yma â phosib.

8. Dethol myfyrwyr

Mae'n rhaid i ddethol dewis myfyrwyr y Prifysgolion, ynghyd â'r weithdrefn ar gyfer dyfarnu grantiau, fod yn deg, yn dryloyw, yn rhesymegol ac yn gofnodedig, ac mae'n rhaid ei fod ar gael i bawb sy'n rhan o'r broses ddethol.

Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i fyfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ar bob cam o'r broses ddethol, ac rydym yn diffinio hyn fel:

- Yn byw gyda'u rhieni: yn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £5,930 neu fwy; neu
- Ddim yn byw gyda'u rhieni: yn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £6,947 neu fwy.

Ni fydd targed ffurfiol ar gyfer cyfran y buddiolwyr ddylai fod o gefndiroedd o'r fath yn yr alwad ariannu gyntaf hon. Fodd bynnag, gofynnir i ymgeiswyr anelu i gael o leiaf 25% o'r myfyrwyr o'r grŵp penodol hwn.

Gan ddisgwyl y bydd mwy o dargedau ffurfiol yn cael eu cynnwys mewn galwadau yn y dyfodol, bydd angen i'r ymgeiswyr ddisgrifio'r camau y byddant yn eu cymryd i hyrwyddo cyfleoedd ariannu drwy'r grant i fyfyrwyr o'r cefndiroedd hyn.

Bydd gofyn i ymgeiswyr adrodd ar gefndiroedd economaidd-gymdeithasol eu myfyrwyr yn yr adroddiad interim a therfynol, a bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r penderfyniadau ariannu mewn cylchoedd yn y dyfodol.

9. Dyrannu'r cyllid

Bydd y British Council yn dyrannu'r cyllid mewn modd teg a thryloyw, gyda'r nod o alluogi cymaint o fyfyrwyr â phosib i elwa ar raglen Cymru Fyd-eang Darganfod. Yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a dderbynnir, gellir cyflwyno Cytundebau Grant i ymgeiswyr sy'n llai na'r swm y gwnaed cais amdano. Bydd y gyllideb grant yn cael ei dyrannu ar sail:

- y gyllideb gyffredinol ar gyfer grantiau;
- y ceisiadau cymwys y mae'r British Council yn eu cael;
- y cyfraddau grant a sefydlwyd gan y British Council;
- y profiadau ymweld a adroddwyd yn yr adroddiad interim (gweler adran 10)

Bydd cyllid ar gyfer Costau Byw yn cael ei **ddyrannu i'r brifysgol ar gyfradd o £200 yr wythnos**. Bydd y brifysgol yn talu'r grant i'r myfyrwyr yn unol â'r cyfraddau priodol a ddangosir yn **Nhabl 2**.

Bydd dyfarniadau grant yn cynnwys dwy elfen:

- Costau Teithio a Chostau Byw ar gyfer profiadau ymweld a gynhelir yng ngwledydd Grŵp A
- Costau Teithio a Chostau Byw ar gyfer profiadau ymweld a gynhelir yng ngwledydd Grŵp B

Gall prifysgolion drosglwyddo hyd at 20% o'u profiadau ymweld Grŵp A i brofiadau ymweld Grŵp B, ac fel arall. Gwneir asesiad o unrhyw drosglwyddiadau yn yr Adroddiad Terfynol, a byddant yn cael eu

cymharu â'r cyllidebau yng Nghytundeb Grant diweddaraf yr alwad honno.

Er enghraifft:

	CYTUNDEB GRANT DIWEDDARAF		ADRODDIAD TERFYNOL		
	Profiadau Ymweld	Cyllideb Deithio	Caniateir ¹	Caniateir ²	Ni Chaniateir ³
Grŵp A	10 (@£300)	£3,000	8 / £2,400	12 / £3,600	13 / £3,900
Grŵp B	14 (@£1,200)	£16,800	16 / £19,200	12 / £14,400	11 / £13,200

Noder:

1. 20% o brofiadau ymweld Grŵp A wedi symud i Grŵp B, gyda chynnydd cyfatebol mewn cyllid
2. 2 brofiad ymweld o Grŵp B (15% o gyfanswm y cytundeb grant) wedi symud i Grŵp A, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyllid
3. 2 brofiad ymweld o Grŵp B (21% o gyfanswm y cytundeb grant) wedi symud i Grŵp A, mwy nag a ganiateir

10. Adroddiadau gan Brifysgolion

Bydd dau gam adrodd ar gyfer gweithgarwch, Adroddiad Interim ac Adroddiad Terfynol. Bydd y ddau adroddiad yn cynnwys, fel lleiafswm, y data canlynol ar gyfer pob profiad ymweld unigol: oed, rhywedd, blwyddyn astudio, llawn amser/rhan amser, ethnigrwydd, anabled, statws economaidd-gymdeithasol, math o brofiad ymweld, hyd y profiad ymweld, cyfanswm y grant byw, cyfanswm y grant teithio, cyfanswm y grant anabled. Bydd teclyn adrodd yn cael ei gyflwyno gan y British Council ddiwedd 2019.

17:00 dydd Llun 2 Mawrth 2020 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau Interim. Mae'n rhaid i'r Adroddiad Interim ddangos yr holl weithgarwch a ariannwyd sydd wedi digwydd, ac unrhyw weithgarwch y mae disgwyl iddo ddigwydd, o fewn paramedrau'r Alwad hon.

Ni all y gweithgarwch a adroddir yn yr Adroddiad Terfynol fod yn fwy na'r hyn a adroddwyd yn yr Adroddiad Interim, felly mae'n bwysig bod yr Adroddiadau Interim yn cynnwys yr holl weithgarwch a ddisgwylir ynghyd â'r gweithgarwch a gyflawnwyd, hyd yn oed os yw'n uwch na gwerth eich Cytundeb Grant presennol.

Gellir ail-ddyrannu'r cyllid grant ar y cam hwn yn seiliedig ar Adroddiadau Interim pob Prifysgol. Bydd Cytundebau Grant, taliadau ac adenillion diwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn ôl yr angen.

Ni ddylai Adroddiadau Terfynol fod yn uwch na gwerth y Cytundeb Grant presennol, a rhaid eu cyflwyno erbyn **17:00 dydd Llun 7 Medi 2020**. Mae'n rhaid i'r adroddiad ddangos bod yr holl weithgarwch a ariannwyd wedi digwydd. Ni all y cyllid a adroddwyd yn yr Adroddiad Terfynol fod yn uwch na'r hyn a nodwyd yn y Cytundeb Grant neu'r llythyr Diwygio Grant.

11. Cytundebau gyda myfyrwyr

Cyn i brofiad ymweld ddechrau, mae'n rhaid i'r brifysgol sicrhau bod pob myfyriwr wedi llofnodi Cytundeb Grant Profiad Ymweld (gweler Atodiad 5) gyda'r brifysgol, gan dderbyn y grant yn ffurfiol a chydabod y rhwymedigaeth sy'n gysylltiedig â'i dderbyn.

Y templed yw isafswm y gofynion, ac mae'n rhaid i'r brifysgol ddefnyddio'r testun llawn ar gyfer cytundebau gyda myfyrwyr. Gall y brifysgol ychwanegu at y testun safonol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylid gofyn cyn gwneud unrhyw ddiwygiad i'r Cytundeb Grant a dylai'r ddwy ochr gytuno drwy hysbysu'n ffurfiol mewn llythyr neu e-bost.

Rhaid cadw'r cytundeb fel cofnod o'r profiad ymweld. Os nad yw'r brifysgol yn cadw'r cytundeb wedi'i lofnodi, ar gopi caled neu'n electronig, gall y British Council adennill y grant mewn archwiliad yn y dyfodol. Mae copïau o ddogfennau wedi'u sganio gyda'r llofnodion gwreiddiol yn dderbyniol at ddibenion archwilio.

12. Diogelwch cyfranogwyr

Mae'n rhaid i brifysgolion fod â gweithdrefnau a threfniadau ar waith i hyrwyddo a gwarantu diogelwch ac i warchod myfyrwyr sy'n cymryd rhan. Yn hyn o beth, mae'n rhaid yswirio myfyrwyr sy'n rhan o raglen Cymru Fyd-eang Darganfod yn erbyn y peryglon sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad yn y gweithgareddau hyn.

Nid yw'r British Council yn diffinio fformat yswirio unigryw, ac nid yw'n argymhell cwmnïau yswiriant penodol. Cyfrifoldeb y Prifysgolion yw canfod y polisi yswiriant mwyaf addas, ond mae'n rhaid bod y meysydd canlynol wedi'u cynnwys:

- lle bo'n berthnasol, yswiriant teithio (gan gynnwys difrod neu golli bagiau);
- atebolrwydd trydydd parti (gan gynnwys, lle bo'n briodol, indemniad proffesiynol neu yswiriant cyfrifoldeb);
- damwain a salwch difrifol (gan gynnwys anallu parhaol neu dros dro);
- marwolaeth (gan gynnwys dadalltud o dramor)

13. Adroddiadau gan fyfyrwyr

Bydd gofyn i bob myfyriwr sy'n cymryd rhan lenwi a chyflwyno adroddiad terfynol cyn **17:00 dydd Llun 7 Medi 2020**. Gall methu â chyflwyno adroddiad terfynol erbyn y dyddiad hwn arwain at adennill yr arian perthnasol yn llawn neu'n rhannol (gweler hefyd adran 6 'Dychwelwyr Cynnar').

14. Cadw cofnodion

Mae'n rhaid i Brifysgolion gadw pob cais a Chytundeb Grant wedi'i lofnodi am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad cau'r Cytundeb Grant perthnasol. Mae hyn yn cynnwys pob cais a chytundeb profiad ymweld gyda myfyrwyr a dogfennau'n ymwneud â dostalu grantiau.

15. Taliadau ac adenillion

Bydd y British Council yn gwneud taliadau grant i Brifysgolion i'r cyfrif banc a nodwyd yn y ffurflen Adnabod Ariannol awdurdodedig (Atodiad 4) a gyflwynwyd gan y Brifysgol. Mae'n rhaid i'r brifysgol hysbysu'r British Council yn syth os oes gwybodaeth anghywir neu wedi dyddio ar y ffurflen honno, a gwneud hynny o leiaf **30 diwrnod** cyn bod disgwyl gwneud unrhyw daliad neu adeniliad. Gall methu â gwneud hynny beryglu taliadau cyllid, a gall olygu bod y brifysgol yn atebol i dalu ffioedd neu gyfnewid colledion i'r British Council oherwydd bod y wybodaeth anghywir neu hen wybodaeth wedi'i darparu.

Bydd y taliadau grant cyntaf yn cael eu gwneud ym mis **Mai 2019**. Bydd y taliad cyntaf yn cynrychioli 70% o werth y Cytundeb Grant. Ar ôl asesu Adroddiadau Interim ar ddechrau gwanwyn 2020, bydd un ai:

- ail daliad yn cael ei wneud am swm sy'n llai na, yn gyfwerth â neu'n fwy na 30% o werth y Cytundeb Grant gwreiddiol; neu
- adeniliad yn cael ei wneud ar gyfer arian sydd heb ei ddefnyddio os yw gwerth yr Adroddiad Interim yn is na'r taliad cychwynnol; neu
- ni fydd taliad nac adeniliad yn cael ei wneud, os yw gwerth yr Adroddiad Interim yn gyfwerth â gwerth y taliad cychwynnol.

Ar ôl i'r British Council ddilysu data'r Adroddiad Terfynol, neu ganfyddiadau archwilio anffafriol, bydd y British Council yn gofyn am ad-daliad o arian a or-dalwyd neu a adroddwyd yn anghywir. Ni fydd y British Council yn mynd i gytundeb ar gyfer cyllid pellach gyda'r brifysgol tan y caiff unrhyw symiau sydd angen eu had-dalu eu talu.

Gall taliadau a wnaed o ganlyniad i gyllid Cymru Fyd-eang Darganfod fod yn destun archwiliad gan y British Council, neu gan sefydliadau neu gyrff a benodwyd gan y British Council at y diben hwn. Bydd gofyn i'r Brifysgol ddarparu tystiolaeth bod y grant wedi gadael cyfrif banc y brifysgol neu wedi'i dderbyn gan y myfyriwr. Gall methu â gwneud hyn arwain at orfod ad-dalu'r grant i'r British Council.

16. Taliadau i fyfyrwyr

Mae'n rhaid i'r brifysgol dalu'r Cytundeb Grant Profiad Ymweld rhwng y myfyriwr a'r brifysgol mewn un taliad o fewn 30 diwrnod o lofnodi'r Cytundeb gan y ddwy ochr, neu erbyn y diwrnod y bydd y myfyriwr yn gadael Prydain (pa un bynnag a ddaw yn gyntaf).

Mae'r cyfraddau ar gyfer Costau Byw (Tabl 2) a Chostau Teithio (Tabl 3) yn berthnasol i bob profiad ymweld, ac ni ddylai'r brifysgol amrywio'r cyfraddau hyn wrth dalu grantiau i fyfyrwyr.

17. Cytundebau grant

Os bydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y llawlyfr hwn yn wahanol i unrhyw Gytundeb Grant, yna'r Cytundeb Grant sy'n cael blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r brifysgol gadw (gweler adran 14 'Cadw Cofnodion') copi caled wedi'i lofnodi o'r Cytundeb Grant gwreiddiol rhyngddyn nhw a'r British Council.

Gellir llofnodi Cytundebau Grant a chytundebau profiadau ymweld rhwng Prifysgolion a chyfranogwyr yn electronig neu â llaw, a chaniateir i un ochr lofnodi'r dogfennau a'u sganio a'u hanfon at yr ochr arall i'w llofnodi.

Mae'n rhaid i'r brifysgol a'r cyfranogwr gadw copïau wedi'u llofnodi gan y ddwy ochr.

18. Archwiliadau a monitro a gwerthuso

Yn yr adroddiad interim a'r adroddiad terfynol, bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei hadrodd, fan lleiaf, ar gyfer pob profiad ymweld:

- Enw'r sefydliad sy'n anfon
- Enw'r gyrchwlad
- Math o brofiad ymweld (astudio/gweithio/gwirfoddoli)
- Enw'r sefydliad yn y gyrchwlad
- Dyddiad dechrau'r profiad ymweld
- Dyddiad gorffen y profiad ymweld
- Hyd y profiad ymweld
- Costau teithio
- Costau byw
- Swm anabledd
- Enw'r myfyriwr
- Rhif HUSID
- Rhywedd
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Pwnc cwrs sefydliad cartref
- Lefel cwrs sefydliad cartref
- Blwyddyn astudio yn y sefydliad cartref
- Astudio'n llawn-amser neu'n rhan-amser.
- Myfyriwr yn byw/ddim yn byw gyda'u rhieni (os yw'n hysbys).
- Faint o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mae'r myfyriwr yn ei gael (os yw'n hysbys)
- Hanu o Gymru (h.y. yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn fyfyriwr cymwys sydd yn adran 1 y llawlyfr hwn)

Caiff gwybodaeth am brofiad ymweld ei hanfon gan ddefnyddio'r offeryn adrodd a gyhoeddir gan y British Council cyn yr adroddiadau interim a therfynol. Mae'n debygol y bydd y rhestr uchod yn cael ei hymestyn cyn yr adroddiad interim, a bydd y British Council yn cysylltu â'r prifysgolion i drafod meysydd data newydd cyn eu cynnwys yn y llawlyfr.

Bydd gofyn i brifysgolion weithio gydag unrhyw sefydliad a benodir gan y British Council i gynnal gwaith Monitro a Gwerthuso hirdymor ar gyfer Cymru Fyd-eang Darganfod.

19. Apelio

Os ydych yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y British Council mewn perthynas â'ch cais am gyllid neu ddyfarniad grant, mae'n rhaid i chi ddilyn y weithdrefn apelio isod.

Mae apêl yn golygu cais i adolygu penderfyniad rydych chi'n teimlo a wnaed yn anghywir gan y British

Council oherwydd gwall gweinyddol, neu oherwydd methiant ar eu rhan i lynu at weithdrefnau sydd wedi'u cyhoeddi neu delerau'r cytundeb grant.

Mae'n rhaid i apêl yn erbyn cais aflwyddiannus nodi p'un a wnaed gwall gweinyddol neu pa weithdrefn gyhoeddedig benodol na lynwyd ati.

Mae'n rhaid i apêl yn erbyn dyfarniad grant nodi a wnaed gwall gweinyddol, neu pa weithdrefn gyhoeddedig benodol na lynwyd ati.

Os yw'r dystiolaeth yn eich apêl yn amhenodol, neu os yw eich apêl yn nodi anfodddhad cyffredinol gyda chanlyniad neu benderfyniad, efallai y caiff ei hystyried fel cwyn, neu efallai na chaiff ei hystyried.

Mae'n rhaid gwneud apeliadau yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen apelio yn Atodiad 2. Yna dylid e-bostio'ch ffurflen wedi'i llenwi i'r British Council (GlobalWalesDiscover@britishcouncil.org) o fewn 10 diwrnod calendr o gael gwybod beth yw'r penderfyniad (cais aflwyddiannus neu gyfrifo'r grant terfynol).

Byddwn yn rhoi gwybod i chi bob amser beth yw amserlen yr apêl pan fyddwn yn cyfathrebu penderfyniad wrthyh. Ein nod yw cydnabod eich apêl yn ysgrifenedig o fewn tri diwrnod gwaith.

Rydym yn anelu i ymateb yn llawn gyda phenderfyniad yr apêl, yn ysgrifenedig, o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gydnabyddiaeth. Gall apeliadau sy'n fwy cymhleth gymryd rhagor o amser i ymdrin â nhw. Yn yr achosion hyn, byddwn yn rhoi diweddariad i chi ar gynnydd eich apêl.

ATODIAD 1: TYSTYSGRIF PRESENOLDEB

Cymru Fyd-eang Darganfod – Tystysgrif Presenoldeb

Dyma dystio bod _____ *(enw'r cyfranogwr)*

cyfeiriad e-bost _____ *(cyfeiriad e-bost y cyfranogwr os ydynt dros 18 oed)*

o _____ *(enw a lleoliad y Brifysgol sy'n anfon)*

wedi ymweld â _____ *(enw a lleoliad y sefydliad sy'n gwsteia)*

fel rhan o **raglen Cymru Fyd-eang Darganfod**

O _____ i _____
(dyddiad dechrau'r gweithgarwch) (dyddiad gorffen y gweithgarwch)

Llofnod _____ *(wedi'i lofnodi gan y sefydliad sy'n gwsteia)*

Enw _____

Swydd y llofnodydd _____

Dyddiad _____ Stamp y sefydliad sy'n gwsteia *(os yw'n briodol)*

ATODIAD 2: FFURFLEN APELIO

Ffurflen Apelio Cymru Fyd-eang Darganfod

PRIFYSGOL SY'N APELIO

Enw'r Brifysgol:	
Enw cyswllt:	
E-bost cyswllt:	
Rhif ffôn cyswllt:	

Yn yr adran ganlynol, 'Natur yr Apêl', nodwch un ai:

- y weithdrefn benodol nas dilynwyd; neu
- y gwall gweinyddol a wnaed; neu
- adran y Cytundeb Grant na lynwyd ati.

Natur yr apêl

Dyddiad cyflwyno'r apêl	

Darparwch fanylion pellach (dim mwy na dwy ochr A4) yn nodi pam yr hoffech gyflwyno apêl:

Manylion pellach (parhad)

ATODIAD 3: FFURFLEN CYMORTH YCHWANEGOL

Cais am Gymorth Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr ag Anableddau

Mae tair adran i'r ffurflen hon:

- Manylion y brifysgol sy'n cyflwyno'r cais.
- Gwybodaeth am yr ymgeisydd. Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu gwybodaeth am natur anabledd yr ymgeisydd, manylion unrhyw gymorth ariannol presennol y mae'r ymgeisydd yn ei gael, a gwybodaeth ynghylch a fydd yr ymgeisydd yn gallu cadw'r cymorth hwnnw yn ystod y profiad ymweld yn y wlad arall.
- Swm y cymorth y mae'r ymgeisydd yn gwneud cais amdano. Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni am faint o gyllid sydd ei angen arnoch i gefnogi eich profiad ymweld. Mae'r adran hon wedi'i rhannu'n wyth categori o gymorth. Mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn darparu amcangyfrifon realistig o ran faint o gymorth fydd ei hangen arnynt ar gyfer pob categori perthnasol.

Bydd angen nifer o ddogfennau eraill arnom i gefnogi'r cais hwn, ac mae manylion y rhain wedi'u nodi ar drydedd dudalen y ffurflen. Heb y dogfennau ategol hyn, ni fyddwn yn gallu cymeradwyo'r cais. Byddai'n well gennym pe bai'r holl ffurflenni gofynnol yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd â ag y gwneir y cais. Os nad yw hynny'n bosib, bydd gan yr ymgeisydd fis o ddyddiad cyflwyno'r Cais am Gymorth Ychwanegol i gyflwyno'r holl waith papur sydd ei angen.

1. GWYBODAETH AM Y BRIFYSGOL

Prifysgol	
Enw'r Cydlynnydd	
E-bost y Cydlynnydd	
Rhif ffôn y Cydlynnydd	

2. GWYBODAETH AM YR YMGEISYDD

Enw Cyntaf		
Cyfenw		
E-bost		
Rhif ffôn		
Sefydliad sy'n Gwesteia		
Dyddiad dechrau'r profiad ymweld	Dyddiad gorffen y profiad ymweld	

2a. Natur eich anabledd

2b. A ydych chi'n elwa ar gyllid neu gymorth mewn nwyddau ar hyn o bryd? Os ydych, nodwch pam nad yw hyn yn ddigonol

2c. A fydd y cymorth a nodwyd yn rhan b yn parhau pe bai chi'n mynd dramor? Pe bai'r cymorth yn cael ei dynnu'n ôl, nodwch y swm fyddai'n cael ei dynnu'n ôl

2d. Nodwch unrhyw wybodaeth arall rydych yn teimlo fyddai'n cefnogi eich cais isod.

3. SWM Y CYMORTH YCHWANEGOL SYDD EI ANGEN

3a. Costau cludiant arbennig rhwng Prydain a'r gyrchwlad

Cyfanswm:

3b. Costau cludiant arbennig yn y gyrchwlad yn ystod cyfnod y profiad ymweld

Cyfanswm:

3c. Llety

Cyfanswm:

3d. Cynorthwydd gofal/helpwr

Cyfanswm:

3e. Triniaeth feddygol

Cyfanswm:

3f. Deunydd dysgu addasedig

Cyfanswm:

3g. Cymorth yn ystod darlithoedd

Cyfanswm:

3h. Arall

Cyfanswm:

ATODIAD 4: FFURFLEN ADNABOD ARIANNOL

Ffurflen Adnabod Ariannol Cymru Fyd-eang Darganfod

MANYLION CANGEN BANC

Enw'r banc:	
Cyfeiriad y banc:	
Cod post:	

MANYLION CYFRIF BANC

Enw'r cyfrif ¹	
Rhif y cyfrif / IBAN	
Cod didoli	
Cod BIC/SWIFT	
A yw'r cyfrif uchod yn gallu derbyn taliadau GBP? ²	YDY / NAC YDY

MANYLION DEILIAD Y CYFRIF

Deiliad y cyfrif:	
Cyfeiriad deiliad y cyfrif:	
Cod post:	

STAMP A LLOFNOD CYNRYCHIOLYDD Y BANC³

LLOFNOD DEILIAD Y CYFRIF

DYDDIAD

Nodiadau

1. Yr enw ar y cyfrif yw hwn (e.e. "Ms A Siencyn"), ac nid math y cyfrif (e.e. "Cyfrif cyfredol")
2. Dim ond i gyfrifon GBP y byddwn yn gwneud taliadau. Os yw eich cyfrif mewn arian cyfred arall, chi fydd yn atebol am unrhyw golledion cyfnewid.
3. Pe bai'n well gennych atodi copi o ddatganiad banc diweddar ar gyfer y cyfrif hwn, mae croeso i chi wneud hynny. Mae'n rhaid i'r manylion ar y datganiad, megis 'enw'r cyfrif', 'rhif y cyfrif', 'enw'r banc' gyfateb â'r rhai ar y ffurflen hon. Os ydych yn atodi datganiad diweddar, nid oes angen cael llofnod a stamp cynrychiolydd y Banc. Nodwch "gweler y datganiad atodedig" yn yr adran hon yn lle hynny.

ATODIAD 5: CYTUNDEB GRANT PROFIAD YMWELD

Cytundeb Grant Profiad Ymweld Cymru Fyd-eang Darganfod

Mae

Enw llawn y Brifysgol gartref:	
Cyfeiriad:	

y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "y sefydliad", a gynrychiolir at ddibenion llofnodi'r cytundeb hwn gan

Enw cynrychiolydd y sefydliad:	
--------------------------------	--

ar un rhan, ac:

Enw'r myfyriwr:	
Cyfeiriad:	
Dyddiad geni:	
Ffôn:	
E-bost:	
A yw'n derbyn grant Cymorth Ychwanegol Cymru Fyd-eang Darganfod?	YDY / NAC YDY

Y cyfrif banc y telir y cyllid iddo	
Enw'r banc:	
Enw ar y cyfrif banc:	
Rhif y cyfrif / IBAN:	
Cod didoli/BIC:	

y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y cyfranogwr", y rhan arall, wedi cytuno i'r Amodau Arbennig a'r Atodiad isod sy'n ffurfio rhan anhepgor o'r cytundeb hwn ("y cytundeb"):

Atodiad I Amodau Cyffredinol

Mae'r telerau a nodir yn yr Amodau Arbennig yn cael blaenoriaeth dros y rhai a nodir yn yr atodiad.

Amodau Arbennig

1. Pwnc y cytundeb

- 1.1 Bydd y sefydliad yn darparu cymorth i'r cyfranogwr gyflawni gweithgarwch profiad ymweld fel rhan o raglen Cymru Fyd-eang Darganfod.
- 1.2 Mae'r cyfranogwr yn derbyn y cymorth Costau Byw a Chostau Teithio fel y nodwyd yn erthygl 3.
- 1.3 Dylid gofyn cyn gwneud unrhyw ddiwygiad i'r cytundeb, a dylai'r ddwy ochr gytuno drwy hysbysiad ffurfiol mewn llythyr neu neges electronig.

2. Dechrau'r Cytundeb a Hyd y Profiad Ymweld

- 2.1 Bydd y cytundeb hwn yn dod i rym ar y dyddiad y mae'r ddwy ochr wedi llofnodi.
- 2.2 Pythefnos (14 diwrnod) yw'r cyfnod byrraf a ganiateir ar gyfer profiad ymweld, ac wyth wythnos (56 diwrnod) yw'r cyfnod hiraf a ganiateir.
- 2.3 Bydd cyfnod y profiad ymweld yn dechrau ar ac yn dod i ben ar Y diwrnod y mae'r cyfranogwr yn teithio o Brydain i'r sefydliad sy'n gwsteia yw dyddiad dechrau'r profiad ymweld. Dyddiad gorffen y profiad ymweld yw'r diwrnod y mae'r cyfranogwr yn cyrraedd Prydain ar ôl teithio o'r sefydliad sy'n gwsteia.
- 2.4 Bydd y cyfranogwr yn cael cymorth ariannol gan raglen Cymru Fyd-eang Darganfod am wythnos ac diwrnod.
- 2.5 Dylai ceisiadau i'r sefydliad i ymestyn cyfnod yr arhosiad gael eu gwneud o leiaf bythefnos cyn diwedd cyfnod gwreiddiol y profiad ymweld.
- 2.6 Bydd y Dystysgrif Presenoldeb (Atodiad 1 Llawlyfr rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod) yn darparu'r dyddiadau dechrau a gorffen a gadarnhawyd ar gyfer y profiad ymweld.

3. Cymorth Ariannol

- 3.1 £..... fydd swm cymorth Cymru Fyd-eang Darganfod ar gyfer y profiad ymweld hwn. Mae hyn yn cynnwys cymorth o £..... ar gyfer Costau Byw a £..... ar gyfer Costau Teithio, a grant Cymorth Ychwanegol o £..... (dileer fel sy'n briodol). Caiff y cymorth Costau Byw ei gyfrifo drwy luosi'r gyfradd wythnosol/ddyddiol berthnasol i'r gyrchwlad gyda'r cyfnod a nodwyd yn 2.4 Mae'r cymorth Costau Teithio yn cynrychioli'r gyfradd sy'n berthnasol i'r gyrchwlad.
- 3.2 Bydd cyfanswm adeniliad y costau a gronnir mewn cysylltiad ag anghenion arbennig (y grant Cymorth Ychwanegol), lle bo'n berthnasol, yn seiliedig ar y dogfennau atodol a ddarperir gan y cyfranogwr.
- 3.3 Bydd rhaid ad-dalu'r cymorth ariannol yn rhannol neu'n llwyr os nad yw'r cyfranogwr yn cyflawni'r profiad ymweld yn unol â thelerau'r cytundeb. Os yw'r cyfranogwr yn dod â'r cytundeb i ben cyn ei ddyddiad gorffen, bydd yn rhaid iddynt ad-dalu swm y grant sydd wedi'i dalu eisoes, oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r sefydliad. Fodd bynnag, lle rhwystrwyd cyfranogwr rhag cwblhau eu profiad ymweld fel y disgrifir yn Atodiad I oherwydd amgylchiadau eithriadol, bydd ganddynt hawl i dderbyn o leiaf swm y grant sy'n cyfateb â hyd gwirioneddol cyfnod y profiad ymweld. Bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw arian sy'n weddill, oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r sefydliad. Mae'n rhaid i'r sefydliad adrodd am achosion o'r fath wrth y British Council, a bydd yn rhaid i'r British Council eu cymeradwyo.

4. Trefniadau Talu

- 4.1 Bydd y sefydliad yn gwneud y taliad cymorth Costau Byw a Chostau Teithio yn 3.1 i'r cyfranogwr mewn un taliad o fewn 30 diwrnod i'r ddwy ochr lofnodi'r Cytundeb hwn, neu ddim hwyrach na'r diwrnod mae'r cyfranogwr yn ymadael â Phrydain (pa bynnag un ddaw gyntaf).

5. Yswiriant

- 5.1 Bydd yn rhaid i'r cyfranogwr sicrhau bod ganddynt sicrwydd yswiriant digonol ar gyfer eu profiad ymweld, gan gynnwys sicrwydd yswiriant iechyd a, lle bo'n briodol, sicrwydd yswiriant atebolrwydd a sicrwydd yswiriant damweiniau. Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n anfon sicrhau bod y

cyfranogwyr wedi cael eu hysbysu'n llawn am faterion yn ymwneud ag yswiriant.

6. Adroddiad terfynol y cyfranogwr

6.1. Yn ystod y profiad ymweld, neu'n fuan wedi hynny, bydd y cyfranogwr yn cael gwahoddiad gan y British Council i lunio ac i gyflwyno adroddiad terfynol. Mae'n bosib y bydd gofyn i gyfranogwyr nad ydynt yn llunio a chyflwyno adroddiad terfynol ad-dalu'r cymorth ariannol a gafwyd yn rhannol neu'n llwyr.

7. Deddf Berthnasol a Llys Cymwys

7.1 Llywodraethir y cytundeb hwn gan gyfraith y Deyrnas Unedig.

7.2 Y llys cymwys a bennwyd yn unol â'r gyfraith genedlaethol berthnasol fydd â'r unig awdurdod i wrando ar unrhyw anghydfod rhwng y sefydliad a'r cyfranogwr mewn perthynas â dehongliad, cymhwysiad neu ddilysrwydd y Cytundeb hwn, os na fydd modd setlo anghydfod o'r fath mewn modd cyfeillgar.

Llofnodion

Ar gyfer y cyfranogwr

Ar gyfer y sefydliad

[enw / enw cyntaf]

[enw / enw cyntaf / swydd]

[llofnod]

[llofnod]

Gwnaed yn [lleoliad], [dyddiad]

Gwnaed yn [lleoliad], [dyddiad]

Atodiad 1

Amodau Cyffredinol

Erthygl 1: Atebolrwydd

Bydd pob parti i'r cytundeb hwn yn difeio'r llall rhag unrhyw atebolrwydd sifil am golledion a ddiodefwyd ganddyn nhw neu eu staff o ganlyniad i weithredu'r cytundeb hwn, cyn belled nad yw colledion o'r fath o ganlyniad i gamymddygiad difrifol a bwriadol ar ran y parti arall neu eu staff.

Ni fydd y British Council na'u staff yn atebol mewn achos o hawliad o dan y cytundeb yn ymwneud ag unrhyw ddifrod a achoswyd yn ystod gweithredu'r profiad ymweld. O ganlyniad, ni fydd y British Council yn derbyn unrhyw gais am indemniad rhag ad-daliad sy'n dod gyda chais o'r fath.

Erthygl 2: Dod â'r cytundeb i ben

Mewn achos o fethiant ar ran y cyfranogwr i gyflawni unrhyw rwymedigaeth sydd yn y cytundeb, waeth beth yw'r canlyniadau y darperir ar eu cyfer o dan y gyfraith berthnasol, mae gan y sefydliad hawl gyfreithiol i ddod â'r cytundeb i ben neu ei ddiddymu heb unrhyw gamau cyfreithiol ffurfiol eraill lle na chymerir camau gan y cyfranogwr o fewn mis i dderbyn hysbysiad drwy lythyr cofrestredig.

Os yw'r cyfranogwr yn dod â'r cytundeb i ben cyn dyddiad gorffen y cytundeb, neu os ydynt yn methu â dilyn y cytundeb yn unol â'r rheolau, bydd yn rhaid iddynt ad-dalu swm y grant sydd eisoes wedi'i dalu, oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r sefydliad.

Mewn achos lle daw'r cyfranogwr â'r cytundeb i ben oherwydd "force majeure", hynny yw, sefyllfa neu ddigwyddiad eithriadol anrhagweladwy sydd y tu hwnt i reolaeth y cyfranogwr ac nad yw o ganlyniad i wall neu esgeulustod ar eu rhan nhw, bydd gan y cyfranogwr hawl i dderbyn o leiaf swm y grant sy'n cyfateb â hyd gwirioneddol y profiad ymweld. Bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw arian sy'n weddill, oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r sefydliad.

Erthygl 3: Diogelu Data

[University to add their own privacy statement here. The statement must make clear the University's obligations under the UK Data Protection Act 2018]

Erthygl 4: Gwiriadau ac Archwiliadau

Mae pob parti i'r cytundeb yn cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth fanwl y gwneir cais amdani gan y British Council neu gan gorff allanol arall sydd wedi'i awdurdodi gan y British Council i wirio y caiff y profiad ymweld a darpariaethau'r cytundeb eu gweithredu'n gywir.